

PENNAWD RHEOLI

Adran	Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr /Cyfreithiol		
Awdur	Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr a Chyfreithiwr y Brifysgol		
Awdurdodwyd gan:	BIG		
Gweithrediad gan:	Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr /Cyfreithiol		
Cyfeirnod Polisi:	POSPSA2122019		
Policies Replaced:	POSP1718006		
Rhif Fersiwn:	2	Pwyllgor Cymeradwyo:	BIG Pwyllgor AD Bwrdd y Llywodraethwyr
Date approved:	15.02.18 25.10.21	Rhif cofnod:	17.28 21.27.01
Statws:	Diwedd	Dyddiad Gweithredu:	Hydref 2021
Cyfnod cymeradwyo:	3 Blynedd	Dyddiad Adolygu:	Medi 2024

POLISI IAITH GYMRAEG

1 CYFLWYNIAD

Mae bod yn sefydliad yng Nghymru yn hanfodol i, ac yn hysbysu, bob rhan o'r Brifysgol yn ei haddysgu, ei hymchwil a'i hymgysylltu lleol. Gyda'i hanes hir o ddiwallu anghenion Gogledd Ddwyrain Cymru a'r rhanbarth trawsffiniol, mae Prifysgol Glyndwr Wreccsam yn falch i gydweithio yng Nghymru a gwasanaethu ei hanghenion. Yn rhan o hyn, mae sicrhau bod y Brifysgol nid yn unig yn cwrdd ag anghenion diwyllianol ac ieithyddol y gymuned y mae'n ei gwasanaethu, ond ei bod hi hefyd yn hwyluso a chefnogi'r diwylliant a'r iaith Gymraeg, yn bwysig. Mae gweithrediadau cyfredol y Brifysgol yn adlewyrchu ein sefyllfa drawsffiniol a'r bwriad yw y bydd y Polisi hwn yn helpu i ysgogi a chefnogi anghenion yr iaith Gymraeg. Cydnabyddir bod gan fusnes craidd y Brifysgol nifer fach o fyfyrwyr sy'n mynegi'r galw am ymgymryd â'u dysgu neu ymchwil cysylltiedig drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Polisi hwn yn ymwneud â sicrhau bod y Brifysgol yn cwrdd ag, ac yn galluogi anghenion iaith Gymraeg y gymuned mae'n ei gwasanaethu mewn modd cyfrifol ac effeithiol a werthfawrogi. Mae hefyd yn ystyried sut y caiff materion o'r fath eu rheoli, eu monitro a'u hadrodd, ac o'r herwydd, mae'n sail i sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Mae'r ddogfen bolisi drosfwaol hon yn rhoi trosolwg o'r iaith Gymraeg ac fe'i cefnogir gan Ganllawiau Gweithredol a fydd yn cael eu cyflwyno fesul cam.

Yn ategol i, ond ar wahân i'r Polisi, y mae'r Cynllun Datblygu Academiaidd ar gyfer Addysgu a Dysgu Cyfrwng Gymraeg a Hysbysiad Cydymffurfio y Brifysgol ynghylch Safonau Iaith Gymraeg. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn llywio dull gweithredu'r Brifysgol tuag at gefnogi datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg.

2 PWRPAS

Mae Polisi Iaith Gymraeg effeithiol yn sail gadarn i ddiffinio a rheoleiddio'r broses o reoli darpariaeth a chydymffurfiaeth iaith Gymraeg, ac mae'n cefnogi Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chefnogi a'i thrin gyda'r statws sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth a'i hyrwyddo fel maes pwysig i'r Brifysgol a'i chenhadaeth.

Mae'r Polisi hefyd yn sail i alluogi a chynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Brifysgol ac wrth gyflwyno ei gwasanaethau mewn amgylchedd croesawgar.

Mae'r Polisi hwn yn rhoi'r datganiad cyffredinol am sefyllfa'r Brifysgol, ceir manylion am sut y caiff ei weithredu yn y Canllawiau Gweithredu a allai gael eu diweddarau'n rheolaidd er mwyn sicrhau gweithredu a chydymffurfio effeithiol (fel arfer caiff polisiâu eu hadolygu o leiaf unwaith bob tair blynedd ar sail gylchol).

3 CWMPAS

Mae'r Polisi hwn, a'r Canllawiau Gweithredu cysylltiedig, yn berthnasol i'r dull arferol o gynnal busnes a gyflawnir yn uniongyrchol gan y Brifysgol, ac mae'n cynnwys (lle y'i diffinnir gan ddeddfwriaeth berthnasol) ddarpariaeth drydydd parti penodol a bydd yn berthnasol i, ac yn cwmpasu, pob maes a nodir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio ar gyfer Safonau Iaith Gymraeg. Nid yw'n berthnasol i ddarpariaeth addysgu a dysgu nac i weithgareddau ymchwil. Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau'r Brifysgol.

4 AMCANION

Mae'r Polisi ar waith er mwyn:

1. Hyrwyddo ymagwedd gyfannol a gwybodus tuag at ddefnyddio, cefnogi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg gan gydnabod hawliau siaradwyr Cymraeg i gyfathrebu â'r Brifysgol yn eu dewis iaith.
2. Cefnogi gweledigaeth strategol y Brifysgol trwy ddull gweithredu sy'n cydbwysu'n effeithiol defnyddioldeb, cymesuredd a chydymffurfiaeth.
3. Hwyluso diwylliant cadarnhaol ar draws y Brifysgol a hyrwyddo bod cefnogi ac yn galluogi'r iaith Gymraeg yn gyfrifoldeb i bawb.
4. Sicrhau bod mecanweithiau cefnogi iaith, monitro ac adrodd yn eu lle ac yn effeithiol, yn gynaliadwy ac yn fesuradwy.
5. Cynorthwyo i gydymffurfio â rhwymedigaethau cytundebol, cyfreithiol neu reoleiddiol a rhoi sicrwydd i bartïon eraill bod amgylchedd cefnogol a chadarn ar waith i hyrwyddo a diogelu'r iaith Gymraeg.

5 DATGANIAD POLISI AC EGWYDDORION

Mae'r Brifysgol yn darparu gwasanaeth ac yn gweithredu yng Nghymru ac felly'n cydnabod pwysigrwydd diwylliannol a chymdeithasol yn ogystal â'r angen statudol i gwrdd, cefnogi a galluogi anghenion Cymraeg. Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu cyfres o egwyddorion (a oedd ar waith yn yr hen Gynllun Iaith Gymraeg) sy'n sail i'r Polisi hwn a'r gyntaf ohonynt yw'r egwyddor sylfaenol:

- Wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, bydd y Brifysgol yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

I gefnogi hyn, mae'r egwyddorion pellach canlynol yn berthnasol:

1. Mae'r hawl hon yn fater o arfer a chyfraith;
2. Gall atal yr hawl i ddefnyddio iaith ddewisol anfanteisio defnyddwyr a chydabod y gall y rheiny y mae angen iddynt gyfathrebu â'r Brifysgol leisio eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith;
3. Mae gan bobl sy'n delio â'r Brifysgol yng Nghymru yr hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio ac i ba iaith y byddwn yn ymateb iddi fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth ac fel y dymunwn ni i annog defnyddio'r Gymraeg.

6 RHEOLAETH A LLYWODRAETHU

Mae cyfrifoldeb am y ddogfen bolisi lefel uchaf hon a'i gweithredu yn gorwedd gydag Is-ganghellor y Brifysgol, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr sy'n gyfrifol am weithredu o ddydd i ddydd, monitro ac adrodd ar y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg a Chyfreithiwr y Brifysgol am gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Fel Polisi swyddogol y Brifysgol mae'r Polisi hwn yn destun craffu a chymeradwyaeth gan Fwrdd yr Is-Ganghellor, a fydd yn derbyn adroddiad blynyddol. Bydd gweithrediad a chydymffurfiaeth yn cael ei fonitro ar lefel Bwrdd y Llywodraethwyr drwy'r Pwyllgor Adnoddau Dynol.

Mae gan y Brifysgol broses ffurfiol ar gyfer cwynion, a dylai unrhyw faterion sy'n codi mewn perthynas â'r Polisi hwn, a dogfennau a phrosesau cysylltiedig, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r Canllawiau Gweithredu, gael eu cyfeirio drwy'r mecanwaith hwnnw yn y lle cyntaf.

7. GWERTHUSO

Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i wella ei darpariaeth gwasanaeth yn barhaus a bydd yn parhau i fonitro effeithlonrwydd y polisi hwn gyda data ansoddol a meintiol. Bydd y broses hon yn sicrhau bod gwerthusiad manwl o effeithiolrwydd y polisi yn cael ei wneud, a bod unrhyw broblemau o ran gweithredu neu reolaeth yn dod i sylw'r Pwyllgor Adnoddau Dynol.